20 Amod yr Adran Allteithiau

Amodau cymhwysol ar gyfer allteithiau DofE

Cynllunio'r alltaith	**1**	Rhaid i'r tîm gynllunio a threfnu'r alltaith; dylai holl aelodau'r tîm allu disgrifio'r hyn a wnaethant yn ystod y cynllunio.
	2	Rhaid i'r alltaith fod â nod. Arweinydd ar lefel Efydd yn unig a all bennu'r nod.
	3	Rhaid i'r holl gyfranogwyr fod o fewn yr oed cymwys ar gyfer lefel y rhaglen ac ar yr un lefel o safbwynt y Wobr (h.y. heb gwblhau alltaith ar yr un lefel neu ar lefel uwch).
	4	Rhaid cael rhwng pedwar a saith o gyfranogwyr mewn tîm (wyth ar gyfer dulliau teithio tandem).
	5	Dylid cynnal yr alltaith yn yr amgylchedd a argymhellir. **Efydd:** Dylid cynnal yr allteithiau mewn cefn gwlad arferol – sy'n gyfarwydd ac yn lleol i'r grwpiau. **Arian:** Dylid cynnal yr allteithiau mewn coedwig neu gefn gwlad agored arferol – sy'n anghyfarwydd i'r grwpiau. **Aur:** Dylid cynnal yr allteithiau mewn cefn gwlad gwyllt (ymhell o fannau lle y mae pobl yn byw) – sy'n anghyfarwydd i'r grwpiau.
	6	O ran llety, dylid gwersylla neu aros mewn llety hunanarlwyo syml o fath arall (e.e. ysguboriau gwersylla neu dai bynciau).
	7	Rhaid i hyd yr alltaith fod yn briodol a rhaid iddi fodloni'r oriau sylfaenol ar gyfer y gweithgareddau a gynlluniwyd. **Efydd:** 2 ddiwrnod, 1 noson o leiaf; 6 awr o weithgareddau y dydd. **Arian:** 3 diwrnod, 2 noson o leiaf; 7 awr o weithgareddau y dydd. **Aur:** 4 diwrnod, 3 noson o leiaf; 8 awr o weithgareddau y dydd
	8	Rhaid i'r holl allteithiau gael eu goruchwylio gan oedolyn (Goruchwylydd Allteithiau) a all ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddiogelwch y tîm.
	9	Rhaid i Asesydd achrededig ymgymryd â'r gwaith asesu. Ar lefel Efydd yn unig, gall yr Asesydd fod yn Oruchwylydd Allteithiau hefyd.
	10	Fel arfer bydd allteithiau'n cael eu cynnal rhwng diwedd Mawrth a diwedd Hydref. Gellir eu cynnal y tu allan i'r cyfnod hwn; os felly, ar gyfer llety dylid ystyried dulliau nad ydynt yn cynnwys gwersylla.
Hyfforddiant ac ymarfer	**11**	Rhaid i'r cyfranogwyr gael eu hyfforddi'n ddigonol er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn ddiogel mewn alltaith a oruchwylir o bell yn yr amgylchedd y byddant yn gweithredu ynddo. **Efydd:** Rhaid i'r timau gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. **Arian:** Rhaid i'r timau gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol ynghyd ag alltaith ymarfer o 2 ddiwrnod, 2 noson o leiaf. **Aur:** Rhaid i'r timau gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol ynghyd ag alltaith ymarfer o 2 ddiwrnod, 2 noson o leiaf.
Yn ystod yr alltaith	**12**	Rhaid i'r holl allteithiau gael eu cwblhau trwy ymdrech gorfforol y cyfranogwyr, heb gymorth modur neu gymorth allanol. Gellir defnyddio cymhorthion symud pa fo hynny'n briodol i anghenion y cyfranogwr.
	13	Dylai'r cyfranogwyr gwblhau'r holl allteithiau ar eu pen eu hunain ac mewn modd hunangynhaliol. Rhaid i'r tîm gael offer priodol, a rhaid ymgymryd â'r gwaith goruchwylio o bell.
	14	Rhaid i'r timau feddu ar y ffitrwydd corfforol angenrheidiol, ynghyd â'r sgiliau cymorth cyntaf a'r sgiliau cyflawni allteithiau angenrheidiol i gwblhau eu halltaith yn ddiogel.
	15	Rhaid i'r grwpiau ddilyn 'polisi defnyddio ffôn symudol' y cytunwyd arno gyda'r Goruchwylydd Allteithiau a'r Asesydd. Dylai'r cytundeb hwn hefyd gynnwys defnydd o offer electronig o fath arall.
	16	Rhaid i'r cyfranogwyr ymddwyn yn gyfrifol mewn perthynas ag aelodau eu tîm, eu Harweinwyr, y cyhoedd ac anifeiliaid.
	17	Rhaid i'r grwpiau ddeall a dilyn y Cod Cefn Gwlad/Scottish Outdoor Access Code, Rheolau'r Ffordd Fawr a'r Cod Chwaraeon Dŵr (fel y bo'n briodol).
	18	Rhaid i'r cyfranogwyr gynllunio bwydlen briodol ar gyfer eu halltaith, yn cynnwys coginio a bwyta pryd poeth sylweddol bob diwrnod. Nid yw hyn yn ofynnol ar y diwrnod olaf.
Ar ôl yr alltaith	**19**	Rhaid i'r cyfranogwyr gymryd rhan weithredol mewn ôl-drafodaeth gyda'u Hasesydd ar ôl i'r alltaith ddod i ben.
	20	Ar lefel Arian ac Aur, rhaid paratoi cyflwyniad a'i draddodi ar ôl yr alltaith.

Mae Gwobr Dug Caeredin yn Elusen Gofrestredig Rhif: 1072490, yn yr Alban SC038254 ac yn Gorfforaeth Siarter Frenhinol Rhif: RC000806.
Swyddfa Gofrestredig: Gulliver House, Madeira Walk, WINDSOR, Berkshire SL4 1EU 14/03/19 DW